Cyngor Tref Amlwch Town Council

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd am 7 o'r gloch drwy gynhadledd fideo 27/7/2021.
Minutes of the Full Council meeting held at 7pm by video conference 27/7/2021.

Presennol/Present: Alan Wood, Gareth Winston Roberts, Gordon Warren, Liz Wood, Myrddin Owens, Kevin Ellis, Meg Roberts, Gerry Belanger, Julie Hughes, Cyng/Cllr Aled Morris Jones

Ymddiheuriadau/Apologies: Gina Jones, Chris Williams, Carys Hughes, Richard Jones, Mike Roberts

Wrth Law/In attendance: Carli Evans Thau (clerc), Hywel Hughes (cyfieithu/translation)

1 Croeso ac Ymddiheuriadau/Welcome and Apologies

Bu Liz Wood gadeirio'r cyfarfod a chroesawu pawb yn bresennol. Derbyniwyd ebost gan Gina Jones yn ymddiswyddo. Cytuno i Liz Wood gysylltu a hi am sgwrs i deall pam ei bod am ymddiswyddo. Cytuno i'r clerc ysgrifennu wedi hyn i ddiolch iddi am ei chyfraniad a'i mewnbwn tra'n aelod o'r Cyngor.

Liz Wood chaired the meeting and welcomed everyone present. An email was received from Gina Jones resigning. Agree to Liz Wood contacting her for a chat to understand why she wants to resign. Agreed to the clerk writing afterwards to thank her for her contribution and input while a member of the Council.

2 Datgan Diddordeb/Declaration of Interest

Bu'r clerc atgoffa aelodau mai eu cyfrifoldeb hwy fel unigolion yw llenwi'r ffurflenni perthnasol a'u dychwelyd i'r swyddfa os am ddatgan diddordeb.

The clerk reminded members that it is their responsibility as individuals to complete the relevant forms and return them to the office to declare an interest.

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf/Minutes of the Last Meeting

Bu cytuno ar welliant i gynnwys datganiad Kevin Ellis (pwynt 16 Cyngrhair Twrcelyn) nad oedd unrhyw un wedi gofyn iddo am ganiatad i roi ei enw ymlaen yn ysgrifenydd y cwmni. Nodwyd pryderon yr aelodau am hyn yn y cyfarfod a dyma oedd y rheswm i alw cyfarfod gyda cyfarwyddwyr a chadeirydd y cwmni. Cynnig Gareth Roberts, eilio Myrddin Owens.

Cymeradwywyd y cofnodion - cynnig Alan Wood, eilio Meg Roberts.

An amendment was agreed to include Kevin Ellis's statement (point 16 Twrcelyn Alliance) that no-one had asked him for permission to put his name forward as company secretary. Members' concerns about this were noted at the meeting and this was why a meeting with the directors and chairman of the company was called. Proposed by Gareth Roberts, seconded by Myrddin Owens.

The minutes were approved – proposed by Alan Wood, seconded Meg Roberts.

4 Materion yn Codi o'r Cofnodion/Matters Arising from the Minutes

4.1 Mynwent – nodwyd bod y gwaith i drin y draen tu allan i'r fynwent bron a gorffen erbyn hyn. Nodwyd bod angen paentio'r giatiau. Mae angen i'r pwyllgor gwrdd ar y safle, nodwydbod y clerc yn disgwyl adborth gan CNC er mwyn symud ymlaen a'r cais cynllunio.

Cemetery - it was noted that the drainage works outside the cemetery were nearing completion. It was noted that the gates needed to be painted. The committee needs to meet on site, it was noted that the clerk was awaiting feedback from NRW in order to progress the planning application.

4.2 Potiau blodau – nodwyd bod y potiau blodau newydd yn edrych yn wych, ond bod nifer o botiau blodau eraill wedi eu hanghofio. Nodwyd bod y pwyllgor yn gweithio o amgylch y dref a bod potiau newydd wedi eu plannu ym Mhorth Amlwch a'r 'gantries' yn cael sylw ar hyn o bryd. Nodwyd hefyd bod yr arwydd Croeso i Amlwch wedi cael sylw gan y siop flodau yn y dref yn ddi-gost i'r Cyngor.

Bu gofyn beth oedd wedi digwydd i'r baneri oedd i'w gosod tu allan i'r siopau. Y clerc i wneud ymholiadau.

Flower pots - it was noted that the new flower pots look great, but many other flower pots have been forgotten. It was noted that the committee was working around the town and that new pots had been planted at Amlwch Port and the 'gantries' were currently being addressed. It was also noted that the Welcome to Amlwch sign had been addressed by the flower shop in the town at no cost to the Council.

The question was raised as to what had happened to the banners that were being placed outside the shops. The clerk to make enquiries.

5 Pwyllgorau Allannol/External Meetings

5.1 Porthladd Amlwch – cadarnhawyd derbyn adroddiad gan Alan Wood yn dilyn cyfarfod diweddar. Nododd mai trin yr harbwr oedd y gwaith ac nid gwelliannau. Mae angen pwyslais i gwblhau'r gwaith er diogelwch. Gobeithir bydd cyfarfodydd misol o hyn allan er mwyn rhoi cyfle am ddiweddariadau cyson. Diolchwyd i Alan Wood am ei adroddiad a bu cytuno dylai'r Cyngor gysylltu a CSYM gyda rhestr benodol o bryderon iechyd a diogelwch. Alan Wood, Myrddin Owens a'r clerc i gydweithio.

Amlwch Port - it was confirmed that a report had been received from Alan Wood following a recent meeting. He noted that the works were harbour repairs and not improvements. Emphasis is needed to complete the work for safety. It is hoped that there will be monthly meetings from now on to give the opportunity for regular updates. Alan Wood was thanked for his report and it was agreed that the Council should contact the IACC with a specific list of health and safety concerns. Alan Wood, Myrddin Owens and the clerk to work together.

5.2 Fforwm Cyswllt CSYM – daw adroddiad gan Gordon Warren yn dilyn y cyfarfod. Cytuno trafod ymhellach yn eitem 9 Ail Gartrefi.

IACC Liaison Forum - report from Gordon Warren was received following the meeting. Agreed to discuss further in item 9 Second Homes.

5.3 Lleoedd ar gyfer Natur Leol – daw adroddiad gan Gordon Warren yn dilyn y sesiwn gwybodaeth. Cytuno trafod ymhellach gyda adroddiad y pwyllgor parciau a mannau agored.

Places for Local Nature - a report by Gordon Warren was received following the information session. Agreed to discuss further with the report of the parks and open spaces committee.

5.4 Cyngrhair Twrcelyn – nodwyd bod cyfarfod blynyddol wedi cymryd lle ond ni chafwyd adroddiad i'w gyflwyno.

Twrcelyn Alliance - it was noted that an annual meeting had taken place but no report had been submitted.

6 Adroddiad Cyllid/Finance Report

Cafwyd grynodeb o'r cyfarfod gan Myrddin Owens. Nodwyd bod diweddariad am y ddau gwmni oedd wedi eu cofrestru yn Lon Bach – mae un wedi ei gywiro a'r llall yn dirwyn i ben yn fuan. Bu trafod datblygiad cae aml-dywydd ar sail bod y CIC yn dirwyn i ben, cwestiynnwyd beth fydd yn digwydd i'r grantiau oedd y corff wedi eu derbyn gan gynnwys gan y Cyngor Tref. Bu cytuno cysylltu a hwy i ofyn am drawsdoriad o'u manylion ariannol a chynnig bod unrhyw arian dros ben yn cael ei drosglwyddo i'r corff arall sy'n gweithio i gael cae 3G ger y ganolfan hamdden. Roedd y pwyllgor yn argymell bod y Cyngor yn cysylltu a'r tri aelod sirol i gadarnhau eu cefnogaeth i ddatblygu cae 3G ger y ganolfan hamdden. Roedd pawb o blaid gwneud hynnu.

Derbyniwyd rhestr o daliadau gan y clerc yn ol yr arfer a bu cymeradwyo adrddiad chwarterol yn amlinellu gwariant ac incwm y Cyngor dros y tri mis diwethaf. Bu'r pwyllgor gymeradwyo parhau a chytundeb cynnal a chadw'r system CCTV.

Daw dau ebost gan y pwyllgor safonnau, cadarnhawyd bod y wybodaeth wedi ei hafnon ymlaen i'r Cyngor Llawn er gwybodaeth. Nodwyd bod dau beth yn codi sef –

- Ffurfio Fforwm Clercod – rhoddwyd hawl i'r clerc ymuno a chymryd rhan os am wneud hynnu
- Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch – cytuno argymell bod y Cyngor yn mabwysiadu cofrestr a bod pob aelod sydd yn derbyn rhodd neu lletygarwch gwerth dros mwy na £10 yn rhinwedd eu swydd fel aelod o'r Cyngor yn cydnabod hynnu gyda'r clerc. Bu cytuno a'r cynnig yn unfrydol, y clerc i gysylltu a phob aelod a gofyn iddynt gadarnhau derbyn y wybodaeth.

Trafodwyd hefyd wybodaeth a dderbyniwyd gan CSYM ynglyn a buddsoddiad yn y dref – i'w drafod eto ymhellach yn y cyfarfod.

Bu'r pwyllgor gynnig bod Pwyllgor Economaidd y Cyngor yn cwrdd gyda cyfarwyddwyr Menter Amlwch nos Lun 2/8/2021 i drafod eu gweithgareddau ac amcanion. Unfrydol hapus i'r pwyllgor gwrdd ac adrodd yn ol.

Myrddin Owens summarised the meeting. It was noted that there was an update on the two companies registered in Lon Bach - one has been corrected and the other is coming to an end soon. The development of an all-weather pitch was discussed on the basis that the CIC was winding down, it was questioned what would happen to the grants the organisation had received including from the Town Council. It was agreed to contact them to request a breakdown of their financial details and propose that any surplus funds be transferred to the other body working for a 3G pitch near the leisure centre. The committee recommended that the Council contact the three county members to confirm their support for the development of a 3G pitch near the leisure centre. All were in favour.

The clerk gave a list of payments for approval as usual and the committee approved a quarterly report outlining the Council's expenditure and income over the last three months. The committee approved the continuation of the CCTV system maintenance agreement.

Two emails come from the standards committee, it was confirmed that the information had been forwarded to Full Council for information. It was noted that two things arose namely -
- Forming a Clerks Forum - the clerk was given the right to join and participate if she wished to do so
- Gifts and Hospitality Register - agreed to recommend that the Council adopts a register and that all members who receive gifts or hospitality of more than £10 in their capacity as a member of the Council acknowledge this with the clerk. The proposal was unanimously agreed, the clerk to contact all members and asking them to confirm receipt of this information.

Information received by the IACC regarding investment in the town was also discussed - to be discussed further later in the meeting.

The committee proposed that the Council's Economic Committee meet with the directors of Menter Amlwch on Monday 2/8/2021 to discuss their activities and objectives. Unanimously happy for the committee to meet and report back.

7 Adroddiad Parciau a Mannau Agored/Parks and Open Spaces Report

Cafwyd adroddiad gan Gordon Warren yn dilyn cyfarfod Lleoedd Natur Lleol gan nodi nifer o gysylltiadau ac adnoddau defnyddiol. Bydd y pwyllgor yn trafod ymhellach. Cafwyd ddiweddariad gan Liz Wood am y potiau blodau o amgylch y dref gan nodi bod gobeithio i bobl lleol fabwysiadau bocsus a'u cynnal a felly datblygu grwp tebyg i Cemaes in Bloom.

Cadarnhawyd bod y fram ddringo wedi ei symud o Maes Mona erbyn hyn oherwydd pryderon diogelwch. Bydd y pwyllgor yn chwilio am arian i allu brynnu a gosod offer newydd. Mae disgwyl i'r gwaith i drin y cylchfan yn Lon Wen gael ei gwblhau yn yr wythnosau nesaf. Cafwyd wybod bod cyfarfod gyda arbennigwr coed i drafod arolwg diogelwch wedi ei drefnu ar gyfer 11/8/2021.

Cafwyd ddiweddariad gan Myrddin Owens ynglyn a gwaith cosb am ddifrodi offer chwarae – dim ond un sesiwn casglu sbwriel fydd yn bosib i'r unigolyn dan sylw. Nodwyd fodd bynnag bod nifer o droseddwyr ifanc yn ardal Amlwch a'u bod ar hyn o bryd yn cwblhau gwaith y tu allan i'r ardal. Cynnigwyd nifer o brosiectau posib megis twtio a chwynu o amgylch meinciau, paentio giaitiau'r fynwent, paentio ceginau

fwd, casglu sbwriel ayyb. Bydd Myrddin Owens yn adrodd yn ol i'r heddlu a'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid gyda'r syniadau.

Cafwyd wybod bod un plac coffa wedi ei ddwyn! Bydd y clerc yn archebu un newydd yn ei le. Nid oes gwybodaeth pellach hyd yma, a bu cadarnhau mai dim ond un o'r tri sydd wedi cael traed. Bu nodi bod Anglesey Turf wedi cynnig deunydd am ddim i'r Cyngor i wella'r safle o amgylch dwy mainc coffa yn edrych dros y traeth ym Mhorth Llechog.

Gordon Warren gave a report following the Places for Local Nature meeting and noted a number of useful contacts and resources. The committee will discuss further. Liz Wood gave an update on the flower pots around town and noted that local people were hoping to adopt and maintain boxes and thus develop a group similar to Cemaes in Bloom.

It was confirmed that the climbing frame had now been removed from Maes Mona due to safety concerns. The committee will be looking for money to install and install new equipment. Work to repair the roundabout at Lon Wen is expected to be completed in the coming weeks. It was reported that a meeting with a tree specialist to discuss a safety survey had been arranged for 11/8/2021.

Myrddin Owens gave an update regarding penalty works for damage to play equipment - only one litter pick session will be undertaken by the individual concerned. It was noted however that there are a number of young offenders in the Amlwch area and that they are currently completing work outside the area. A number of possible projects were proposed such as tidying and weeding around benches, painting cemetery gates, painting mud kitchens, litter picking etc. Myrddin Owens will report back to the police and youth justice service with the ideas.

It was reported that one commemorative plaque had been stolen! The clerk will order a replacement. There is no further information as yet, and it has been confirmed that only one of the three had been taken. It was noted that Anglesey Turf had offered the Council free materials to improve the site around two memorial benches overlooking the beach at Bull Bay.

8 Materion Cynllunio/Planning Matters

8.1 Daw nifer o geisiadau i'r hystyried, cadarnhaodd y clerc bod pob un wedi ei hafnon i'r aelodau drwy ebost a bu iddi gadarnhau sylwadau'r aelodau fel a ganlyn:
FPL/2021/61 Tyddyn Dai – gwrthwynebu ar sail pryderon traffig ac nad oedd y lon yn addas
LBC/2021/16 Dinorben – dim gwrthwynebiad
FPL/2021/156 Tyddyn Crythor – dim gwrthwynebiad
HHP/2021/208 Bay View Cottage – dim gwrthwynebiad
HHP/2021/219 23 Y Garth – dim gwrthwynebiad

A number of applications are being considered, the clerk confirmed that all have been sent to members by email and confirmed members' comments as follows:
FPL / 2021/61 Tyddyn Dai - object on the grounds of traffic concerns and that the lane is unsuitable
LBC / 2021/16 Dinorben - no objection
FPL / 2021/156 Tyddyn Crythor - no objection
HHP / 2021/208 Bay View Cottage - no objection
HHP / 2021/219 23 Garth - no objection

8.2 Cafwyd wybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn:
FPL/2021/97 1A Stryd y Farchnad – caniatad
FPL/2021/43 17-21 Salem St – caniatad
FPL/2021/72 Ysgellog – gwrthod

The IACC's decisions were reported as follows:
FPL / 2021/97 1A Market Street - permission
FPL / 2021/43 17-21 Salem St - permission
FPL / 2021/72 Ysgellog - refusal

9 Ail Gartrefi/Second Homes

Cadarnhawyd bod cyflwyniad a wnaed gan Marc Jones (CSYM) yng nghyfarfod y Fforwm Cyswllt wedi ei anfon allan i'r aelodau er gwybodaeth. Cafwyd grynodeb o'r cyfarfod gan Gordon Warren.

Nodwyd bod 'AirB&B' yn dod yn broblem mwy amlwg yn y dref bellach a bod y diffiniad o ail-gartref yn anghywir. Pwysleiswyd yr angen i gael tai yn ol ar y farchnad i bobl lleol eu prynnu neu rhentu. Bu cydnabod bod anhawster i bobl allu prynnu tai ond teimlwyd bod cynyddu'r dreth Cyngor yn wrthgynhyrchiol. Mae cynyddu'r dreth i dai gwyliau yn golygu bod perchnogion yn eu cofrestru yn fusnesau ac felly yn talu dim. Mae'r Cyngor eisioes wedi gofyn i CSYM fabwysiadu polisu dros dro tra bod Llyw Cymru yn diweddaru polisi cenedlaethol. Bu Aled Jones nodi bod ad-daliadau treth Cyngor wedi costio dros £750k i CSYM yn y flwyddyn diwethaf yn unig. Pwysleiswyd bod angen i CSYM wario ar ddarparu tai cymdeithasol.

Cytuno ysgrifennu at CSYM yn nodi barn y Cyngor bod cynyddu trethi ar dai gwyliau yn gwneud mwy o ddrwg na daioni a gofyn eto iddynt ystyried polisi dros dro nes bydd Llyw Cymru wedi canfon ateb, a phwysleisio'r angen am dai cymdeithasol yn yr ardal yn gyffredinol. Cynnig Alan Wood, eilio Gerry Belanger, unfrydol gefnogol.

It was confirmed that a presentation made by Marc Jones (IACC) at the Liaison Forum meeting had been sent out to members for information. Gordon Warren summarised the meeting.

It was noted that 'AirB&B' is now becoming a more prominent problem in the town and that the definition of second home is incorrect. The need to get houses back on the market for local people to buy or rent was emphasised. There has been recognition that housing is difficult for people to buy but increasing the Council tax is counterproductive. Increasing the tax on holiday homes simply means that the owners will register as a business and therefore pay nothing. The Council has already asked the IACC to adopt interim policy while Welsh Government updates national policy. Aled Jones noted that Council tax rebates cost the IACC over £ 750k in the last year alone. It was emphasized that the IACC needs to spend on providing social housing.

Agreed to write to the IACC setting out the Council's view that increasing rates on holiday homes does more harm than good and asking them again to consider an interim policy until the Welsh Government has resolved, and emphasizing the need for social housing in the area. generally. Alan Wood, seconded Gerry Belanger, unanimously supported.

10 Gwelliannau Porthladd/Port Improvements

Cytuno bod y mater wedi ei drafod yn barod uchod (cyfarfodydd allannol) gofynwyd i'r eitem gael ei ddiweddaru ar agenda'r cyfarfod nesaf – Trin y Porthladd / Port Repairs (nid gwelliannau).

Agreed that the matter has already been discussed above (external meetings) the item was requested to be updated on the agenda for the next meeting – Trin y Porthladd / Port Repairs (not improvements).

11 Materion Parcio/Parking Matters

11.1 Porth Amlwch Port

Mae disgwyl pris am osid rhwystrau yn allanf maes parcio'r sgwar. Trafodwyd pryderon am barcio gyferbyn a'r toiledau a sut mae cerbydau mawr yn gorfod mynd ar y palmant i gael heibio. Cytuno cysylltu a CSYM i drefnu cyfarfod safle i drafod y posibilrwydd o linellau melyn ac ymweliadau gan wardeiniaid parcio.

A quote is expected for the installation of barriers at the car park exit. Concerns about parking opposite the toilets and how large vehicles have to get on the pavement to get past were discussed. Agree to contact IACC to arrange site meeting to discuss possible yellow lines and visits by parking wardens.

11.2 Porth Llechog/Bull Bay

Mae problemau parcio enbyd yma. Mae perchenog y gwesty erbyn hyn wedi codi ffens o amgylch y safle ac mae'r gymuned gyfan yn cwyno. Nodwyd bod gan y perchenog hawl i ddiogelu ei eiddo. Nodwyd bod maes parcio CSYM gyferbyn a'r toiledau wedi ei hawlio gan drigolion lleol a bod rhai cerbydau a cychod

heb eu symud ers wythnosau maith. Cytuno cysylltu a CSYM i edrych ar y maes parcio eto ar fryder a marcio llecynau parcio. Mae gofyn i'r tri aelod sirol hefyd roi pwysau ar swyddogion i weithredu. Y clerc i gysylltu yn ffurfiol.

There are serious parking problems here. The hotel owner has now erected a fence around the site and the whole community is complaining. It was noted that the owner had the right to protect his property. It was noted that the IACC car park opposite the toilets had been claimed by local residents and that some vehicles and boats had not been moved for many weeks. Agree to contact the IACC to look at the car park again with concern and mark parking spaces. The three county members also need to put pressure on officers to take action. Clerk to contact formally.

12 Cyngrhair Twrcelyn Alliance

Cadarnhawyd bod gwahoddiad wedi ei anfon i Carys Hughes (cadeirydd), Arwel Hughes (cyfarwyddwr) a Kevin Ellis (ysgrifennydd) i fynychu'r cyfarfod heno. Cafwyd wybod gan Carys Hughes bydd adroddiad i ddilyn y Cyfarfod Blynyddol fydd yn ateb y cwestiynnau a godwyd. Bu Arwel Hughes a Kevin Ellis gadarnhau drwy ebost eu bod wedi ymddiswyddo ac nad oeddent ynghlwm a'r cwmni.

Yn dilyn o'r cyfarfod blynyddol, cafwyd wybod gan rheini oedd yn bresennol nad oedd cyfansoddiad y corff wedi ei fabwysiadu ac y bydd yn cael ei hanfon allan i'r cynghorau lleol i'w ystyried yn fanwl. Nid oes unrhyw gyngor wedi derbyn y ddogfen hyd yma. Yn y cyfarfod bu Alan Wood godi nifer o gwestiynnau gan gynnwys yma mha gyfarfod bu cytuno ffurfio cwmni cyfyngedig ac agor cyfrif banc. Bu'r cadeirydd wrthod ateb y cwestiynnau a bygwth dod a'r cyfarfod i ben. Cwestiynwyd pam fod y Cyngor Tref ynghlwm a'r fath fudiad os nad oedd atebion i'w cael i gwestiynnau synhwyrol. Bu Aled Jones gadarnhau'r drafodaeth, a chadarnhau hefyd bod Cyngor Cymuned Rhosybol a Chyngor Cymuned Llanbadrig yn rhannu'r un pryderon a bod pawb yn y tywyllwch.

Bu Myrddin Owens nodi bod dau gorff ar wahan ynghlwm a'r drafodaeth yma – Cyngrhair Twrcelyn a Twrcelyn Alliance Ltd. Deallwyd bod y tri enw oedd ynghlwm a'r cwmni wedi ymddiswyddo, felly ydy'r cwmni yn bodoli bellach? Nodwyd bod rhaid bod un o'r cyfarwyddwyr wedi cyflwyno ffurflen yn penodi Kevin Ellis yn ysgrifennydd. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu a'r ddau oedd ynglwm i gadarnhau pwy oedd wedi cyflwyno'r wybodaeth i Companies House. Cynnig Gareth Roberts, eilio Meg Roberts, unfrydol hapus.

Bu Alan Wood nodi bod gwahanol grantiau ar gael i gwmniau fyddai o bosib ddim ar gael i'r Cyngor, ond bod pwysig cofio bod Companies House yn cysylltu unigolion a gwahanol gwmniau i greu gwe gyswllt. Mae'n hynod bwysig bod y Cyngor yn agored a thryloyw ac yn cydweithio er budd y dref. Byddai unrhyw fffaeo neu cam-ymddwyn gyda unrhyw gyswllt uniongyrchol neu peidio yn gallu cael effaith negyddol ar allu'r Cyngor i ddenu grantiau a buddsoddiad i'r dref.

Cynnigwyd bod y clerc yn gwahodd cadeirydd Cyngrhair Twrcelyn a chadeirydd Medrwn Mon i gwrdd a'r pwyllgor economaidd. Byddai cais hefyd i Lyndsey Campbell (Medrwn Mon) i gadarnhau faint o grantiau sydd wedi eu diogelu gan y corff, a phwy sydd wedi eu awdurdodi. Aelodau yn unfrydol gefnogol.

Nodwyd bod y syniad tu ol i Cyngrhair Twrcelyn yn un da, a bd nifer o unigolion galluog a gweithgar ynghlwm a'r corff ond bod angen cydweithio er budd y gymuned. Mae potensial mawr i'r corff wneud llawer o waith da yn yr ardal. Cytuno cadw'r eitem ar agenda pob cyfarfod Cyngor o hyn allan.

It was confirmed that an invitation had been sent to Carys Hughes (chair), Arwel Hughes (director) and Kevin Ellis (secretary) to attend tonight's meeting. Carys Hughes advised that the report that is to follow the AGM will answer the questions raised. Arwel Hughes and Kevin Ellis confirmed by email that they had resigned and were not affiliated with the company.

Following on from the annual meeting, those who were in attendance noted that the constitution of the body had not been adopted and that the document would be sent out to the local councils for detailed consideration. No council has received the document to date. At the meeting Alan Wood raised a number of questions including at which it was agreed to form a limited company and open a bank account. The chair refused to answer the questions and threatened to close the meeting. It was questioned why the Town Council was involved in such an organisation if there were no answers to sensible questions. Aled

Jones confirmed the discussion, and also confirmed that Rhosybol Community Council and Llanbadrig Community Council shared the same concerns and that everyone was in the dark.

Myrddin Owens noted that two separate bodies were involved in this discussion - Twrcelyn Alliance and Twrcelyn Alliance Ltd. It was understood that the three names associated with the company had resigned, so does the company now exist? It was noted that one of the directors must have submitted a form appointing Kevin Ellis as secretary. The clerk was asked to contact both parties to confirm who had submitted the information to Companies House. Gareth Roberts proposed, seconded Meg Roberts, happy unanimous.

Alan Wood noted that there are different grants available to companies that may not be available to the Council, and it is important to remember that Companies House links individuals and different companies together creating a web. It is extremely important that the Council is open and transparent and works together for the benefit of the town. Any arguments or misconduct with or without any direct contact could have a negative impact on the Council "s ability to attract grants and investment into the town.

It was proposed that the clerk invite the chair of the Twrcelyn Alliance and the chair of Medrwn Mon to meet with the economic committee. There would also be a request to Lyndsey Campbell (Medrwn Mon) to confirm the amount of grants that have been secured by the organisation, and who had authorised them. The Council was unanimously in favour.

It was noted that the idea behind Twrcelyn Alliance was good, and many able and hardworking individuals were involved with the organisation but there was a need to work together for the benefit of the community. There is great potential for the organisation to do a lot of good work in the area. Agreed to keep the item on the agenda for all future Council meetings.

13 Marchnad Amlwch Market

Cafwyd ddiweddariad gan CSYM ynglyn a chynllun rheoli traffig. Cadarnhawyd bod perchennog y caffi yn ceisio cysylltu a'r adran drwyddedu am y materion eraill. Noswyd siom nad oedd CSYM yn gallu diddymu'r cytundeb ar sail ymddygiad. Pwysleiswyd mai mater i CSYM oedd y gytundeb, cytuno cysylltu a Llinos Medi ac Annwen Morgan i ddatgan pryderon y Cyngor sut mae'r farchnad yn cael ei reoli o dan y cytundeb cyfredol.

An update was given from IACC regarding the traffic management plan. It was confirmed that the café owner was trying to contact the licensing department about the other issues. Disappointment was expressed that the IACC was unable to rescind the agreement on grounds of conduct. It was emphasised that the agreement was a matter for the IACC, agreeing to contact Llinos Medi and Annwen Morgan to express the Council's concerns about how the market is being managed under the current agreement.

14 Pwyllgor Safonnau/Standards Committee

Gweler adroddiad pwyllgor cyllid uchod/ See finance committee report above

15 Buddsoddiad Economaidd CSYM/Economic Investment IACC

Cadarnhawyd bod y Cyngor wedi gofyn i CSYM am wybodaeth am fuddsoddiad yn y pum tref dros y ddegawd diwethaf. Bu'r clerc gadarnhau ei bod wedi anfon y wybodaeth i'r aelodau drwy ebost er gwybodaeth. Trafodwyd y wybodaeth gan nodi siom ar ddiffyg gwariant yn y dref. Esgus CSYM oedd bod y gwariant yn y trefi eraill yn cyfateb i grantiau oedd wedi eu diogelu, ond bu iddynt hefyd gadarnhau nad oeddent wedi cyflwyno yr un cais am brosiectau yn Amlwch. Roedd yr aelodau wedi eu siomi bod y dref wedi cael ei anwybyddu yn llwyr a bod y ffigyrau yma yn profi hynnu.

Gofynnwyd i'r clerc anfon y wybodaeth ymlaen i'r tri aelod sirol iddynt wneud achos i CSYM i fuddsoddi yn yr ardal (e.e. safle Rehau). Bu Myrddin Owens nodi ei fod wedi tynnu sylw at ffigyrau buddsoddiad tebyg tair mlynedd yn ol a bod y Cyngor pryd hynnu wedi gofyn i'r aelodau sirol drio gwella'r sefyllfa – mae'r dref rwan yn derbyn llai! Nododd Aled Jones y dylai mwy o arian NDA fod ar gael i ardal Amlwch, a bod gan CSYM ddigon o arian ar gael i fuddsoddi yma os am wneud hynnu.

Gofynnwyd am gadarnhad o ble a faint o arian NDA oedd wedi ei wario. Bu Aled Jones gytuno gwneud ymholiadau ac adrodd yn ol i'r clerc. Bu Myrddin Owens gynnig bod y Cyngor yn gwneud cais am wybodaeth hefyd yn gofyn i CSYM faint o arian NDA sydd wedi ei dderbyn hyd yma, ble mae wedi ei wario, faint mwy mae disgwyl ei dderbyn a chynlluniau i'r dyfodol. Bu eilio'r cynnig gan Gareth Roberts a bu pawb yn gefnogol.

It was confirmed that the Council had asked the IACC for information on investment in the five towns over the last decade. The clerk confirmed that she had emailed the information to members for information. The information was discussed and disappointment noted at the lack of spending in the town. The IACC's excuse was that the other towns expenditure equaled grants that had been secured, but they also confirmed had not submitted any applications for projects in Amlwch. Members were disappointed that the town had been completely ignored and that these figures proved so.

The clerk was asked to forward the information to the three county members for them to make a case to the IACC for investment in the area (eg the Rehau site). Myrddin Owens noted that he had highlighted similar investment figures three years ago and that the Council had asked county members to try and improve the situation - the town is now receiving less! Aled Jones noted that there should be more NDA for ad funding for the Amlwch area, and that the IACC has enough money available to invest here if it is to do so.

Confirmation was sought as to where and how much NDA money had been spent. Aled Jones agreed to make enquiries and report back to the clerk. Myrddin Owens proposed that the Council request information also asking IACC how much NDA funding has been received so far, where it has been spent, how much more is expected to be received and future plans. The proposal was seconded by Gareth Roberts and everyone was supportive.

16 Cwestiynau i'r Cynghorwyr Sirol/Questions to the County Councillors

Bu tynnu sylw Aled Jones at broblemau yn ymwneud a thrafferthion a twrw yn Market Tavern, Stryd Mona. Deallwyd bod pryderon am ymddygiad gwrthgymdeithasol rheini sy'n ymweld a'r dafarn yn amharu ar bobl lleol oriau man y bore. Cytuno bod angen cysylltu a'r dran drwyddedu i dynnu sylw a chadarnhau telerau ac oriau y dafarn. Nododd Liz Wood ei bod wedi drafftio llythyr yn barod a bod nifer o bobl lleol yn bryderus am y sefyllfa. Deallwyd bod yr heddlu yn ymweld ond ddim yn gweithredu, cytuno cysylltu a hwythau hefyd i nodi siom yn y sefyllfa a thynnu sylw at bryderon.

Aled Jones's attention was drawn to problems relating to trouble and noise at Market Tavern, Mona Street. Concerns about the anti-social behavior of visitors to the pub were understood to be affecting local people in the early hours of the morning. Agreed that the licensing section needs to be contacted to draw attention and confirm the terms and hours of the pub. Liz Wood noted that she had already drafted a letter and that many local people were concerned about the situation. It was understood that the police were visiting, but not taking action. Agreed also to contact them to note disappointment in the situation and highlight concerns.

17 Gohebiaeth/Correspondence

17.1 Daw ebost yn tynnu sylw ar wersylla gwyllt a swbriel ar y tir ochr bellaf yr harbwr. Cadarnhawyd mai cyfrifoldeb CSYM oedd hwn. Bu cadarnhau eu bod eisioes yn ymwybodol o'r broblem.

An email highlighting wild camping and littering issues on the far side of the harbour was noted. It was confirmed that this was the IACC's responsibility. It was confirmed that they are already aware of the problem.

17.2 Bu Kevin Ellis nodi ei fod yn symud o'r dref gyda'i deulu ym mis Medi ac felly am sefyll i lawr fel aelod o'r Cyngor. Nodwyd nad oedd angen cyfreithiol iddo ymddiswyddo wrth symud o'r ardal ac y byddai yn gallu parhau i fynychu cyfarfodydd drwy Zoom nes yr etholiad nesaf. Cynnigwyd na fyddai'r Cyngor yn derbyn ei ymddiswyddiad nes ystyried y mater eto ym mis Medi, cynnig Myrddin Owens, eilio Liz Wood.

Kevin Ellis noted that he was moving out of the area with his family in September and therefore wanted to stand down as a member of the Council. It was noted that there was no legal need for him to resign when

moving out of the area and that he would be able to continue to attend meetings through Zoom until the next election. It was proposed that the Council would not accept his resignation and would consider the matter again in September, Myrddin Owens' proposal, seconded Liz Wood.

18 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting

Cynhelir cyfarfod nesaf y cyngor nosFawrth 28/9/2021 am 7yh.
The next council meeting will be held Tuesday 28/9/2021 at 7pm.

Liz Wood
Cadeirydd/Chair
Cyngor Tref Amlwch Town Council

CET07/2021